**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

2 Hydref 2023

Annwyl Russell

Diolch i'r Pwyllgor am y cwestiynau adeiladol a ofynnwyd ganddo pan ymddangosais gerbron Ymchwiliad y Pwyllgor i Ganser Gynaecolegol. Cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor wedyn i drafod nifer o'r materion a godwyd.

Gofynnodd Sarah Murphy AS beth yw'r targed yng Nghymru sy'n cyfateb i'r targed yn Lloegr ar gyfer gwneud diagnosis cynnar o ganser (Lloegr: 75% o achosion yn cael diagnosis ar gam 1 neu 2 erbyn 2028). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi ffigurau digwyddedd canser yn ôl y cam pan wneir y diagnosis, ond nid oes targed yng Nghymru ar gyfer cyfran y canserau sy'n cael diagnosis ar gam 1 neu 2. Mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser yn nodi pa mor bwysig yw gwneud diagnosis o ganser ar gamau cynharach, am mai dyna fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gyfraddau goroesi canser. Mae'n cynnwys, fel rhan o'r broses comisiynu, ddisgwyl i fyrddau iechyd gynllunio a darparu gwasanaethau a fydd yn canfod mwy o achosion o ganser ar gamau cynharach. Rydym yn disgwyl y bydd y datblygiadau parhaus mewn gwasanaethau diagnostig, arferion atgyfeirio a gwelliannau yn y ddarpariaeth sgrinio yn helpu i ganfod canser ar gamau cynharach. Nid wyf o'r farn bod angen gosod targed er mwyn ysgogi'r gwaith hwn, am mai dyma'r maes ffocws pwysicaf ar lefel genedlaethol o ran gwasanaethau canser. Mae hefyd yn anodd iawn cynnig barn ar y newid hirdymor am fod cyfran y canserau na roddir cam iddynt wedi lleihau'n sylweddol dros amser, sy'n effeithio ar y cyfrannau a gofnodir ar unrhyw gam penodol.

Gofynnodd Sarah Murphy AS hefyd am wybodaeth ynghylch pa mor amserol yw'r ystadegau canser swyddogol a gynhyrchir gan Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru. Bwriedir cyhoeddi'r ffigurau goroesi canser diweddaraf, i gynnwys ffigurau 2020, ym mis Hydref 2023. Bwriedir cyhoeddi'r ffigurau marwolaethau canser diweddaraf, i gynnwys ffigurau 2022, ym mis Rhagfyr 2023. Cyhoeddwyd y ffigurau digwyddedd canser diweddaraf, gan gynnwys ffigurau 2020, ym mis Awst 2023. Yn y DU, mae'n arferol i'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi ar ôl oedi 2-3 blynedd. Y rheswm am hyn yw ei bod yn cymryd amser i ddata gronni mewn systemau clinigol, i gael eu dilysu i sicrhau eu bod yn gywir, i gael eu trosglwyddo a'u prosesu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yna i gael eu cyhoeddi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran data goroesi yn benodol, rhaid bod o leiaf blwyddyn wedi mynd heibio er mwyn cyfrifo'r gyfradd goroesi canser un flwyddyn, ac mae angen data ar gyfer sawl blwyddyn i fodelu'r gyfradd goroesi canser pum mlynedd. Cafodd y ffigurau hyn eu cyhoeddi yn fwy prydlon yn y cyfnod cyn y pandemig mewn gwirionedd, drwy fabwysiadu technegau modelu ar gyfer adrodd am oroesi pum mlynedd. Fodd bynnag, mae'n wir bod blynyddoedd cynnar y pandemig wedi cael effaith dros dro ar gapasiti'r Uned, wrth i staff gael eu hailgyfeirio i helpu'r ymateb brys. Byddai hyn wedi ychwanegu rhywfaint o oedi ychwanegol at gyhoeddi'r ystadegau. Fodd bynnag, erbyn diwedd y flwyddyn hon bydd y ffigurau diweddaraf ar gyfer digwyddedd (2020), goroesi (2020) a marwolaethau (2022) ar gael inni.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod data'r gofrestrfa ganser yn cael eu cyhoeddi'n fwy prydlon ac am y tro cyntaf mae wedi cyhoeddi ystadegau arbrofol ar ddigwyddedd canser gan ddefnyddio data system patholeg. Nid yw'r data hyn yn rhoi darlun cyflawn o bob math o ganser, ond maent ar gael hyd at fis Mai 2023 er mwyn helpu i roi gwybodaeth fwy cyfredol am ddigwyddedd canser i randdeiliaid.

Er bod data'r gofrestrfa ganser swyddogol yn bwysig ar gyfer deall digwyddedd a chanlyniadau canser, mae'r ffigurau hyn fel arfer yn weddol gyson ar lefel y boblogaeth, ac eithrio ar gyfer blwyddyn bandemig. Nid ydym yn dibynnu ar ddata'r gofrestrfa yn unig i ddarparu nac i oruchwylio gwasanaethau canser. Mae gan y GIG gasgliad helaeth o ddata rheoli mewnol a ddefnyddir o ddydd i ddydd i arwain y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cyfeiriodd Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru at sut rydym yn helpu byrddau iechyd i ddatblygu adnoddau gwybodaeth busnes er mwyn gallu defnyddio'r data rheoli hyn yn well. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu setiau data ar lefel yr is-fath o ganser (e.e. canser ceg y groth, canser yr ofari, canser y groth). Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill ar gyfer llwybrau 'caeedig' – sef llwybrau lle mae'r driniaeth wedi dechrau. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl gwahaniaethu ymhlith atgyfeiriadau ar gyfer canser gynaecolegol am na fydd canser gynaecolegol ar tua 1 ym mhob 20 o'r bobl sy'n cael eu hatgyfeirio, a hefyd am fod yr atgyfeiriad yn cael ei wneud ar sail y math o symptomau neu'r math o glinig cleifion allanol yn hytrach na'r is-fath o ganser.

Rydym yn parhau i ystyried yr hyn sy'n bosibl o ran datblygu data gwell ar gyfer achosion sy'n cael eu hatgyfeirio. Ond mae'n debygol y bydd y pwyslais ar sicrhau data mwy manwl ar y cam gwneud diagnosis yn y llwybrau a elwir yn llwybrau 'agored' – lle nad yw'r driniaeth wedi dechrau eto, neu nad yw'n sicr nad oes canser ar yr unigolyn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i'r Ymchwiliad.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services